# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 25 Mehefin 2003 i'w hateb ar 9 Gorffennaf 2003

**R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant**
**W Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg**

**(Dynodir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog Cyllid*

**1. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i adolygu prosiectau'r Fenter Cyllid Preifat yng Nghymru. (OAQ26688)

**2. Elin Jones (Ceredigion);** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael ynglyn â chynhyrchu dadansoddiad manwl o'r cyfanswm gwariant a threth yng Nghymru. (OAQ26785) **W**

**3. Jeff Cuthbert (Caerffili);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y mae'n bwriadu pennu'r blaenoriaethau ar gyfer cyllidebau arfaethedig y Cynulliad. (OAQ26796)

**4. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar danwariant y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2002 hyd fis Ebrill 2003. (OAQ26739)

**5. Carl Sargeant (Alun a Glannau Merswy);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffordd y mae'n bwriadu pennu'r blaenoriaethau ar gyfer cyllidebau arfaethedig y Cynulliad. (OAQ26795)

**6. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi cyllidebol y Cynulliad yn y dyfodol. (OAQ26743)

**7. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i chydweithwyr yn San Steffan ynghylch dyraniadau'r gyllideb i Gymru. (OAQ26715)

**8. Eleanor Burnham (Gogledd Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r gyllideb addysg. (OAQ26712)

**9. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adnoddau cyffredinol y mae'n bwriadu eu dyrannu i'r portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol. (OAQ26696)

**10. Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau

bod digon o gyllid ar gael i Lywodraeth Leol yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. (OAQ26697)

**11. Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa gyllid ychwanegol y bydd y Gweinidog yn ei ddarparu o gyllideb cyffredinol y Cynulliad ar gyfer y portffolio Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon. (OAQ26740)

**12. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ynglyn â sefyllfa gyllidebol Cymru o ran gwariant a threth. (OAQ26702) **W**

**13. Leanne Wood (Canol De Cymru );** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adnoddau ariannol sydd wedi'u dyrannu ar gyfer y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol newydd. (OAQ26699)

**14. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag Awdurdodau Lleol ynglyn â'r goblygiadau cyllidebol o unrhyw ad-drefniant i ranbartholi cyflogau sector gyhoeddus. (OAQ26783) **W**

**15. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Trysorlys ynglyn â'r goblygiadau i gyllideb y Cynulliad o'r cynlluniau i amrywio cyflogau yn y sector gyhoeddus yn rhanbarthol. (OAQ26784) **W**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**1. Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Sut y mae'r Gweinidog yn gorfodi Cyfarwyddebau'r UE ar lygredd aer yng Nghymru. (OAQ26679)

**2. Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ailgylchu mwy yng Nghymru. (OAQ26760)

**3. Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o gyrraedd targedau ailgylchu yng Nghymru. (OAQ26725)

**4.Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Gyfarwyddeb Fframwaith Dwr yr Undeb Ewropeaidd. (OAQ26771) **W**

**5. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa gamau bydd y Gweinidog yn eu cymryd tuag at hyrwyddo datblygu cynaliadwy. (OAQ26772) **W**

**6. Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y Gorchmynion Datblygu Interim yng Nghymru. (OAQ26726)

**7. Brian Gibbons (Aberafan);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar dirlenwi compost o wastraff a gesglir gan gynghorau. (OAQ26764)

**8. Lynne Neagle (Tor-faen);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adroddiad Llys Archwilwyr Ewrop ar gynllun datblygu gwledig yr UE ar gyfer ardaloedd llai ffafriol a'i oblygiadau i Gymru. (OAQ26755)

**9. John Griffiths (Dwyrain Casnewydd);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol polisi cynllunio. (OAQ26803)

**10. Mike German (Dwyrain De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfrifoldeb ei adran am les y greoedd merlod ar gomin Gelli-gaer a chomin Merthyr Tudful. (OAQ26727)

**11. Mark Isherwood (Gogledd Cymru);** Pa gamau fydd y Gweinidog yn eu cymryd i ryddhau arian amaeth-amgylcheddol Tir Gofal, sy'n crynhoi heb ei dalu, i ffermwyr Cymru. (OAQ26678)

**12. Alun Ffred Jones (Caernarfon);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ledaeniad TB mewn gwartheg. (OAQ26774) **W**

**13. Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau'r Cynulliad i annog ffermwyr Cymru i arallgyfeirio. (OAQ26763)

**14. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyngor a roddwyd gan swyddogion ar y datblygiad arfaethedig yn Island Farm. (OAQ26673)

**15. Leighton Andrews (Rhondda);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adfywiad amgylcheddol cwm Rhondda. (OAQ26685)